

Asesiad Risg Cydraddoldeb - Ffurflen Sgrinio (A)

At ddibenion y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw weithdrefnau, strategaethau, adolygiadau, prosiectau, cynlluniau a chynnwys rhai newydd, wedi'u hadolygu, neu wedi eu diwygio'n sylweddol.

Enw'r Polisi/Gweithdrefn/Prosiect/Darn o offer a gynigir	
Gweithdrefnau Iechyd a Ffitrwydd	
Cyfarwyddiaeth/ Adran/Tîm	
Adran AD	
Dyddiad sgrinio:	Pwy yw'r prif fuddiolwyr/defnyddwyr?
09/03/2015	Holl weithwyr a recriwtiaid gweithredol posibl GTAGC.
Nodau, amcanion a chanlyniadau	
Nod y weithdrefn hon yw sicrhau dull cytunedig a strwythuredig i wella iechyd a ffitrwydd corfforol yr holl weithwyr. Yn benodol, mae'n ymwneud â rhwymedigaethau cytundebol diffoddwyr tân gweithredol i gynnal lefelau disgwylidig o ffitrwydd ar gyfer eu rôl.	

Mae Asesiad Risg Cydraddoldeb yn ein helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal a gwasanaethau, yn ogystal ag atal gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'n offeryn a fydd yn eich helpu pan fyddwch yn: gwneud penderfyniadau allweddol, datblygu prosiect, ysgrifennu neu ddiweddarau polisi/gweithdrefn, neu ddechrau menter. Bydd yr asesiad hefyd yn gweithredu fel archwiliad o'r penderfyniadau yr ydych yn eu cynnig.

Mae asesu effaith/risg yn ofniad cyfreithiol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, rhaid i ni ystyried sut y mae'r penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar bobl a'u nodweddion gwarchoddedig, sef; oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, neu gyfeiriadedd rhywiol.

Sgrinio ar gyfer Effaith

Ystyriwch bob un o'r Nodweddion Gwarchodedig isod a nodwch os yw eich cynnig yn risg effaith **isel**, **canolig** neu **uchel**.

Lefel y risg	
Isel	Effaith leiaf posibl neu hynod o fach ar nodwedd warchodedig. Effaith andwyol yn annhebygol..
Canolig	<p>Mae risg fechan i ganolig yn bodoli a allai effeithio ar nodwedd warchodedig. Mae mesurau yn eu lle i sicrhau na fydd unrhyw effaith andwyol yn digwydd.</p> <p>Os oes rhesymau lliniarol, megis rhwymedigaethau cyfreithiol (e.e. oed trwydded yrru), gofynion y swydd (e.e. prawf llygaid ar gyfer recriwtiaid), neu feini prawf prosiect (e.e. gyrwyr ifanc), rhaid i'r rhain gael eu cynnwys yn yr adran berthnasol. Nodwch na ellir defnyddio cost yn unig fel rheswm lliniarol.</p>
Uchel	<p>Effaith negyddol sylweddol ar y grŵp nodwedd warchodedig i'r gymuned, staff, neu broses fusnes. Byddai'n arwain at ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth ac felly gellid rhoi'r sefydliad mewn perygl. Os nodir y lefel hon, mae'n ofynnol cwblhau Ffurflen Asesu lawn (B).</p> <p>Os yr effaith mewn gwirionedd yn hybu cyfle cyfartal a gwasanaethau i'r grŵp a gaiff ei dan gynrychioli (megis diwrnodau mynediad i fenywod, neu ymgyrch diogelwch tân a anelir at ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl), gallai hyn fod yn effaith gadarnhaol sy'n cael ei chaniatáu gan y gyfraith.</p>
Arfer Da/Ffactorau Lliniarol	Os bydd y weithdrefn, prosiect, cynllun, ayb. yn darparu gwelliannau - er enghraifft, y geiriad yn dod yn fwy cynhwysol, sicrhewch bod hyn yn cael ei gynnwys yn yr adran Arfer Da. Hefyd, os oes ffactorau lliniarol (fel y trafodwyd yn y Canllawiau), gwnewch yn siŵr eich bod yn eu cynnwys yma.

Nodweddion Gwarchodedig	Lefel Risg uchel, canolog, isel	Esboniwch eich asesiad yn fyr	Arfer da a/neu Ffactorau lliniarol
<p>Oed (grŵp oed ieuengach, hŷn neu benodol)</p>	<p>Canolog</p>	<p>Mae safonau addasrwydd yn un o ofynion rôl y diffoddwr tân gweithredol. Yn y boblogaeth ehangach, mae lefelau ffitrwydd cardio-anadlol yn dirywio gydag oed. Efallai y bydd y gallu i gynnal y gofyniad safon ffitrwydd anghyfartal yn cael effaith ar y nodweddion gwarchodedig. Gall cynnal ffordd iach o fyw a rhaglen hyfforddiant corfforol priodol leihau'r dirywiad ffisiolegol hwn yn sylweddol.</p> <p>Yn ogystal, mae'r safonau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol, ac maent yn dangos y lefel ofynnol o ffitrwydd corfforol sydd ei hangen i sicrhau perfformiad diffodd tân effeithiol, ac iechyd a lles gweithwyr yn ogystal â'r cyhoedd.</p> <p>Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer safonau yn golygu bod yr effaith hon yn cael ei lliniaru.</p> <p>I weithwyr eraill, bydd hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw iachach yn gymesur â grwpiau oed gwahanol.</p>	<p>Gellir canfod gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfiawnhad gwyddonol dros safonau ffitrwydd yma:</p> <p>http://www.cfoa.org.uk/firefit</p> <p>http://www.cfoa.org.uk/download/18003</p> <p>http://www.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf</p> <p>Cydweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr. Bydd bob intern a noddir gan GTAGC yn gweithredu rhaglen ymchwil a gynlluniwyd i fodloni nodau ac amcanion GTAGC. Mae'n hanfodol bod iechyd a ffitrwydd y gweithwyr gweithredol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei fesur fel y gall ymyriadau wedi'u targedu gael eu rhoi ar waith os oes angen. Yn ogystal, bydd dadansoddiadau carfan yn cael eu cynnal a gwneir cymariaethau o lefelau iechyd a ffitrwydd y gweithwyr gweithredol o fewn GTAGC a/neu ar draws y tri Gwasanaeth yng Nghymru (lle bo'n briodol).</p> <p>Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb - Asesiad Llawn B.</p>

<p>Anabledd (corfforol, synhwyrdd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, cudd)</p>	<p>Isef</p>	<p>Mae profion ac asesiadau ffitrwydd yn adlewyrchu'r gweithgareddau ar gyfer diffodd tân, ac felly maent yn ofynion sy'n rôl-benodol.</p> <p>Cedwir paragraffau mor fyr â phosib i helpu unrhyw un sydd â dyslecsia, ac mae'n glir y gellir darparu cymorth pellach petai gan unrhyw un gwestiynau.</p> <p>I gydnabod y gall rhai gweithwyr ddewis rhannu gwybodaeth breifat yn y gyfres o gyfweiliadau ffitrwydd (statws HIV, triniaeth ar gyfer canser, bod yn ddyslecsig, ayb.), mae'r ddogfen yn ei gwneud yn glir beth yw'r lefel uchel o gyfrinachedd y mae gweithwyr Iechyd Galwedigaethol yn ymlynu ati.</p> <p>Hefyd, mae hyblygrwydd yn bodoli o ran asesiadau a chyfweiliadau ffitrwydd i gymryd i ystyriaeth oediad neu ail-amserlennu sy'n gysylltiedig ag iechyd - er enghraifft, unrhyw ofynion oediad amser yn dilyn pigiadau inswlin.</p>	<p>Gellir canfod gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfiawnhad gwyddonol dros safonau ffitrwydd ar gyfer Diffoddwyr Tân yma:</p> <p>http://www.cfoa.org.uk/firefit</p> <p>http://www.cfoa.org.uk/download/18003</p> <p>http://www.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf</p> <p>Gwneir addasiadau/ lwfansau rhesymol ble y bo'n bosib/ briodol.</p> <p>Gweithdrefnau Anabledd ac Adleoli GTAGC: <i>'Cydnabyddir y gallai sicrhau cyfle cyfartal i bobl anabl gynnwys gwneud addasiadau i'r amgylchedd gwaith neu drefniadau cyflogaeth eraill'</i>.</p>
<p>Ailbennu rhywedd (rhywun sy'n trosglwyddo o un rhyw i un arall)</p>	<p>Canolig</p>	<p>Mae'n bwysig cydnabod y gall unigolyn yn y broses o ailbennu rhywedd brofi rhai effeithiau andwyol i'w iechyd (gweler Aseiad Effaith Cydraddoldeb - Aseiad Llawn B).</p> <p>Mae'r polisi yn glir ynghylch cyfleusterau</p>	<p>Mewn achos o effaith andwyol, ceisir cyngor gan yr adran Iechyd Galwedigaethol.</p> <p>Bydd Ymgynghorydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth yn darparu gwybodaeth ychwanegol i reolwyr llinell pan fo angen.</p>

		preifat, pa ddillad sydd angen eu gwisgo, a chyfrinachedd. Hefyd, ceir darpariaeth ar gyfer darparu tylino chwaraeon gan wasanaeth allanol ar gyfer unrhyw aelodau o'r gweithlu sydd mewn cyfnod pontio o ran ailbennu rhywedd.	Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb - Asesiad Llawn B.
Priodas a phartneriaeth sifil (cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw)	Isel	Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â gofynion ffitrwydd i weithwyr gweithredol a hybu bob gweithiwr i fyw'n iachach; felly effaith isel a geir ar statws perthynas rhywun.	
Beichiogrwydd a Mamolaeth (Beichiogrwydd, seibiant mamolaeth, bwydo ar y fron)	Isel	Nid yw diffoddwyr tân beichiog a'r rhai ar absenoldeb mamolaeth yn destun i brofion ffitrwydd hyd nes eu bod yn dychwelyd i'r gwaith (gweler y golofn nesaf).	Polisi a Gweithdrefnau Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu. Tynnir unigolion beichiog i ffwrdd oddi wrth ddyletswyddau gweithredol am resymau iechyd a diogelwch, ac ni fyddant yn destun i asesiadau ffitrwydd gorfodol. Mae cefnogaeth ar gael ar ôl dychwelyd i'r gwaith a chaniateir fframiau amser rhesymol caniatáu cyn asesiad ffitrwydd. Ni chaniateir i weithwyr gweithredol ddychwelyd i ddyletswyddau gweithredol llawn tra'n bwydo ar y fron. Fodd bynnag, yn dilyn asesiad risg, gallant gymryd rhan mewn hyfforddiant a digwyddiadau eraill yn y gweithle.
Hil (Tarddiad ethnig,	Isel	I weithwyr gweithredol, mae gofynion rôl-benodol am brofion ffitrwydd rheolaidd.	Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn unol ag ymrwymiad y Gwasanaeth i

cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr)		Nid yw hyn yn ystyried Hil aelodau'r staff.	welliant, rydym yn cydnabod hawl cymunedau lleiafrifoedd ethnig i dderbyn safon deg o wasanaeth. Rydym yn cydnabod ac yn ymrwymedig i gydraddoldeb wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac i'n gweithwyr.
Crefydd/Cred (Cristnogol, Mwslimaidd, Hindwaidd, Iddewig, Bwdhaidd)	Isel	I weithwyr gweithredol, mae gofynion rôl-benodol am brofion ffitrwydd rheolaidd. Nid yw hyn yn ystyried Crefydd neu Gred aelodau'r staff.	Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mae'r gwasanaeth yn cymryd safbwynt sensitif a rhagweithiol ar grefydd a chred. Ein nod yw galluogi pobl i gymryd rhan lawn a chyfartal yn ein gwaith trefniadol gyfan, waeth beth fo'u crefydd a chred, ond hefyd yn barchus o'u crefydd a chred. Deallir y gallai fod rhesymau crefyddol pam na all aelod gweithredol dderbyn tyllino chwaraeon gan rywun o'r rhyw arall. Oherwydd hyn gellir gofyn am ddarparwr o'r un rhyw.
Rhyw (Benyw, Gwryw)	Canolig	Mae safonau addasrwydd yn un o ofynion rôl y diffoddwr tân gweithredol. Yn y boblogaeth ehangach, mae lefelau ffitrwydd cardio-anadlol yn gyffredinol yn isel yn achos menywod. Efallai y bydd y gallu i gynnal y gofyniad safon ffitrwydd anghyfartal yn cael effaith ar y nodweddion gwarchodedig. Gall cynnal ffordd iach o fyw a rhaglen hyfforddiant corfforol priodol leihau'r dirywiad ffisiolegol hwn yn sylweddol. Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer safonau yn golygu bod yr effaith hon yn cael ei	Gellir canfod gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfiawnhad gwyddonol dros leiafswm safonau ffitrwydd yma: http://www.cfoa.org.uk/firefit http://www.cfoa.org.uk/download/18003 http://www.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf Rhoddir gyngor ffitrwydd ym mhob adolygiad iechyd a ffitrwydd ar sut i gadw'n ffit yn gorfforol mewn perthynas â gofynion person-benodol.

		lliniaru.	Efallai na fydd un rhyw yn gyfforddus gyda derbyn tylino chwaraeon gan rywun o'r rhyw arall, felly os gofynnir am hynny, gellir darparu ymarferydd o'r un rhyw. Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb - Asesiad Llawn B.
Cyfeiriadedd rhywiol (Hoyw, Lesbiaid, neu ddeurywiol)	Isel	Ni ofynnir am wybodaeth ynghylch cyfeiriadedd rhywiol yn ystod unrhyw ran o'r broses ffitrwydd ac iechyd.	Gwneir addasiadau/ lwfansau rhesymol ble y bo'n bosib/ briodol. Gall gweithwyr sy'n LHDT ofyn am ymarferydd gwahanol ar gyfer tylino chwaraeon, a chydabyddir wrth wneud hyn y gallant fod ofn cael eu gorfodi i 'ddod allan'; fodd bynnag, ni wneir unrhyw ragdybiaeth o'r fath, gan fod yna grwpiau eraill hefyd sydd â'r gallu i ofyn am ddarparwr gwahanol.
laith (laith Gymraeg, ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, braille, BSL)	Isel	Ni fyddai'r polisi yn cael effaith andwyol ar y nodwedd hon. Yn achos gweithwyr sydd angen cymorth ieithyddol, gwneir addasiad rhesymol lle y bo'n bosibl/briodol.	Gwneir addasiadau/ lwfansau rhesymol ble y bo'n bosib/ briodol. Gall gweithwyr Corfforaethol a allai fod angen cymorth ieithyddol (megis laith Arwyddion Prydain) roi gwybod i'r Adran Adnoddau Dynol, a fydd yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael.

Os nodir risg uchel ar gyfer unrhyw nodwedd warchoddedig, bydd angen Asesiad llawn (Ffurflen B). Os yw'r risg yn ganolig ond nad oes unrhyw ffactorau lliniarol, efallai bod angen Asesiad Llawn, felly siaradwch gyda'r Swyddog Amrywiaeth.

Sicrhewch fod y ffurflen hon yn cael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd i chi ei chwblhau (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect, ayb.) ac e-bostiwrch gopi, ynghyd ag unrhyw bapurau cefnogol, i fewnflwch yr Uned Amrywiaeth. Os yn cael ei chwblhau er mwyn ei defnyddio mewn Pecyn Casgliad, bydd y Swyddog Polisi angen copi wedi ei argraffu a'i lofnodi.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ARC gael ei gyhoeddi, felly bydd hwn yn cael ei lwytho i fyny i'r adran *Asesiad Risg Cydraddoldeb a Gwblhawyd* ar y fewnwyd, a gall hefyd fod ar gael ar ein gwefan.

Sicrhewch fod y ffurflen hon yn cael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd i chi ei chwblhau (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect, ayb.) ac e-bostiwrch gopi, ynghyd ag unrhyw bapurau cefnogol, i fewnflwch yr Uned Amrywiaeth. Os yn cael ei chwblhau er mwyn ei defnyddio mewn Pecyn Casgliad, bydd y Swyddog Polisi angen copi wedi ei argraffu a'i lofnodi.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ARC gael ei gyhoeddi, felly bydd hwn yn cael ei lwytho i fyny i'r adran *Asesiad Risg Cydraddoldeb a Gwblhawyd* ar y fewnwyd, a gall hefyd fod ar gael ar ein gwefan.

Llofnod y person a wnaeth y sgrinio:	Llofnod y person a'i awdurdododd :
Llofnod:	Llofnod:
Enw: Chelsey Hughes 2015	Enw: Llinos Gutierrez-Jones 2015
Dyddiad: 9 ^{fed} Mawrth	Dyddiad: 9 ^{fed} Mawrth

Asesiad Effaith Cydraddoldeb - Asesiad Llawn (B)

Os ydych wedi tynnu sylw at Risg Uchel yn y Sgrinio, bydd hyn yn eich helpu i gasglu data a gwybodaeth am y risg. Gall Asesiad Llawn hefyd eich cynorthwyo i nodi opsiynau newydd sy'n lleihau'r risg. Mae cysylltu a chynnwys partïon a rhanddeiliaid priodol yn allweddol ar y cam hwn.

Asesu'r dystiolaeth

A oes unrhyw **ddata ansoddol** (ysgrifenedig, gwybodaeth ar lafar, drwy brofiad) sy'n ymwneud â'r cynnig hwn, fel darparu gwasanaeth neu adborth staff, cwynion allanol ac adborth i'r ymgynghoriad? Rhowch fanylion a rhestrwch pwy y bwriedwch ymgynghori a hwy a sut y bwriedwch gasglu'r wybodaeth hon ac os bydd unrhyw barti neu grwpiau eraill gael eu cynnwys, megis cymuned, cynghori allanol, undebau neu grwpiau ffocws.

Atodwch unrhyw ddogfennau perthnasol/ neu atodwch ddolenni i'r dogfennau.

CFOA (2015) Managing Physical Fitness <http://www.cfoa.org.uk/firefit>

Fitness Standards and Fitness Testing Protocols. A report on Equality Impact for the Chief Fire Officers Association (August 2007). Professor Kevin Sykes. Centre for Exercise and Nutrition Science. University of Chester, UK, Richard Stevenson MSc, PGD, BSc, MSMA. Senior Physical Training Adviser. South Wales Fire & Rescue Service.
<http://www.firefitsteeringgroup.co.uk/kevinsykes.pdf>

Normal Pension Age for Firefighters Review (NPA 2013) - [NPA Review.pdf](#)

Equal Opportunities Commission Briefing Note on Establishing Fitness Requirements (1998).

http://www.firefitsteeringgroup.co.uk/cfoa_012-2012.pdf

A oes unrhyw **ddata meintiol** (gwybodaeth rifol) sy'n ymwneud â'r cynnig hwn, fel ystadegau a data o adrannau cynllunio corfforaethol a pherfformiad, data tân a gwasanaethau arbennig, ystadegau, data cyfrifiad a data cymunedol, er enghraifft.

Os y nodwyd effaith negyddol andwyol, mae angen i chi ystyried opsiynau i addasu'r cynnig i leihau risg andwyol.

Beth yw canfyddiadau'r asesiad o dystiolaeth? Cwblhewch yr adrannau perthnasol a nodwyd yn y broses sgrinio. Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn ffynhonnell dda o wybodaeth a phrofiad wrth gynnal asesiadau felly cysylltwch ag ef/hi ar y cyfle cyntaf.

Nodweddion Gwarchoddedig	Canfyddiadau	Beth fyddwch chi'n ei wneud i negyddu'r risg neu Amcan wrthrychol o'r effaith negyddol
<p>Oed (grŵp oed ieuengach, hŷn neu benodol) Yn y 'Normal Pension Age for Firefighters Review' (NPA, 2013) nodwyd bod VO2 max, cryfder a chyfansoddiad corfforol yn dirywio gydag oed. Fodd bynnag, awgrymir os yw ffordd iach o fyw yn cael ei chynnal, ni fyddai'r gostyngiad mewn ffitrwydd mor radical.</p>	<p>Mae safonau addasrwydd yn un o ofynion y rôl diffoddwr tân gweithredol. Mae'r safonau hyn yn orfodol ar gyfer lechyd a Diogelwch gweithwyr yn ogystal â'r cyhoedd, ac felly nid ydynt yn cael eu cyfiawnhau yn wrthrychol ac mae'r effaith hon yn cael ei lliniaru.</p> <p>Yn 2013-14 roedd gan GTAGC 9 Diffoddwr Tân Wrth Gefn benywaidd rhwng 35-49 mlwydd oed a 14 diffoddwr tân llawn amser benywaidd rhwng 35- 49 mlwydd oed.</p>	<p>Pennir safonau ar y lefel isaf er mwyn gallu ymgymryd â'r gofyniad swydd yn ddiogel ac yn effeithiol.</p> <p>I weithwyr eraill, bydd hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw iachach yn cyd-fynd â grwpiau oed gwahanol.</p> <p>Gellir gweld gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfiawnhad gwyddonol dros y safonau ffitrwydd gofynnol yma:</p> <p>http://www.cfoa.org.uk/firefit</p> <p>http://www.cfoa.org.uk/download/18003</p> <p>http://www.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf</p> <p>Atodwyd HRFW11 a 13 (2013-14) i'r Ffurflen Asesiad Effaith Cydraddoldeb (Gwybodaeth bellach am ystod oed menywod sy'n gweithio i'r gwasanaeth).</p> <p>Gyda'r Ymgynghorydd Ffitrwydd Corfforol pwrpasol newydd ei benodi/phenodi, mae gan weithwyr fynediad at gyngor ffitrwydd parhaus a rhaglenni wedi'u teilwra, a allai gyfrannu at wella ffitrwydd y gweithiwr.</p>

	<p>Yn y 'Normal Pension Age for Firefighters Review' (NPA, 2013) nodwyd bod VO2 max, cryfder a chyfansoddiad corfforol yn dirywio gydag oed. Fodd bynnag, awgrymir os yw ffordd iach o fyw yn cael ei chynnal, ni fyddai'r gostyngiad mewn ffitrwydd mor radical.</p>	<p>Adolygiad NPA (2013) http://www.clg.heywood.co.uk/system/files/130112+-+NPA+Review+-+FINAL.pdf</p> <p>Bydd casglu data rheolaidd a monitro'r effaith ar y safonau ffitrwydd gofynnol yn cael ei gwblhau trwy fecanweithiau priodol i leihau'r risg hon.</p>
<p>Anabledd (corfforol, synhwyrdd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, cudd)</p>		
<p>Ailbennu rhywedd (rhywun sy'n trosglwyddo o un rhyw i un arall)</p>	<p>Canfu astudiaeth a gynhaliwyd gan Wierck, K., <i>et al</i> (2012) atodedig, fod triniaeth hormon ar draws rhyw yn ymddangos yn ddiogel mewn dynion trawsrywiol; fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o fenywod trawsrywiol yn dioddef o osteoporosis yn y meingefn lumbar a braich distal. Roedd cyfran o fenywod trawsrywiol wedi dioddef digwyddiad thromboembolig, ac eraill yn cael problemau cardiofasgwlaidd, ar ôl tua 11 mlynedd o driniaeth hormonau.</p> <p>Asscheman <i>et al</i> (2011): Canfu'r astudiaeth hon bod cyfraddau marwolaethau trawsrywolion Gwryw i Fenyw 51% yn uwch na'r boblogaeth yn gyffredinol; nid oedd</p>	<p>Wierck, <i>et al</i> (2012) http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/22906135</p> <p>Asscheman <i>et al</i> (2011): http://www.eje-online.org/content/164/4/635.full.pdf</p> <p>Proses asesu ffitrwydd agored, teg a chyfiawn yn</p>

	<p>hyn yn amlwg trawsrywolion Benyw i Wryw</p>	<p>unol â gwerthoedd craidd y Gwasanaeth. Bydd Ymgynghorydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth yn darparu gwybodaeth ychwanegol i reolwyr llinell pan fo angen.</p> <p>Mewn achos o effaith andwyol, ceisir cyngor gan yr adran Iechyd Galwedigaethol.</p> <p>Gwneir addasiadau/ lwfansau rhesymol ble y bo'n bosib/ briodol.</p> <p>Gyda'r Ymgynghorydd Ffitrwydd Corfforol pwrpasol newydd ei benodi/phenodi, mae gan weithwyr fynediad at gyngor ffitrwydd parhaus a rhaglenni wedi'u teilwra, a allai gyfrannu at wella ffitrwydd y gweithiwr.</p> <p>Bydd casglu data rheolaidd a monitro'r effaith ar y safonau ffitrwydd gofynnol yn cael ei gwblhau trwy fecanweithiau priodol i leihau'r risg hon.</p>
<p>Priodas a phartneriaeth sifil (cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw)</p>		
<p>Beichiogrwydd a Mamolaeth (Beichiogrwydd, seibiant mamolaeth, bwydo ar y fron)</p>		
<p>Hil (Tarddiad ethnig, cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr)</p>		
<p>Crefydd/Cred (Cristnogol, Mwslimaidd, Hindwaidd, Iddewig, Bwdhaidd)</p>		

<p>Rhyw (Benyw, Gwryw)</p>	<p>Mae safonau ffitrwydd yn un o ofynion y rôl diffoddwr tân gweithredol; gall gweithwyr gweithredol benywaidd gael eu heffeithio yn anghymesur o ganlyniad i wahaniaethau biolegol a ffisiolegol. Er hynny nid yw hyn yn anochel. Gall hyfforddiant corfforol rheolaidd wella ffitrwydd. Mae'r safonau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac maent yn dangos y lefel ofynnol o ffitrwydd corfforol sydd ei hangen i sicrhau perfformiad diffodd tân effeithiol ac iechyd a lles gweithwyr yn ogystal â'r cyhoedd.</p> <p>Mae'r safonau hyn wedi cael eu gosod i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân, ac fel y cyfryw nid ydynt yn cael eu cyfiawnhau yn wrthrychol (cyfeiriadau yn y golofn ar y dde)</p> <p>Bydd menywod gyda'r un VO2max cychwynnol yn profi dirywiad cysylltiedig ag oed sy'n debyg iawn mewn VO2max i wrywod os yw'r newidiadau mewn ffactorau ffordd o fyw yn debyg. (Adolygiad NPA)</p>	<p>Gellir canfod gwybodaeth yn ymwneud â'r cyfiawnhad gwyddonol yma http://www.cfoa.org.uk/download/18003</p> <p>http://www.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf</p> <p>Adolygiad NPA (2013)</p> <p>Atodwyd HRFW11 a 13 (2013-14) i'r Ffurflen Asesiad Effaith Cydraddoldeb (Gwybodaeth bellach am ystod oed menywod sy'n gweithio i'r gwasanaeth).</p> <p>Gyda'r Ymgynghorydd Ffitrwydd Corfforol pwrpasol newydd ei benodi/phenodi, mae gan weithwyr fynediad at gyngor ffitrwydd parhaus a rhaglenni wedi'u teilwra, a allai gyfrannu at wella ffitrwydd y gweithiwr.</p> <p>Bydd casglu data rheolaidd a monitro'r effaith ar y safonau ffitrwydd gofynnol yn cael ei gwblhau trwy fecanweithiau priodol i leihau'r risg hon.</p>
---------------------------------------	---	---

	Mae gan GTAGC 19 Diffoddwr Tân Wrth Gefn benywaidd a 16 Diffoddwr Tân Llawn Amser benywaidd.	
Cyfeiriadedd rhywiol (Hoyw, Lesbiaid, neu ddeurywiol)		
Iaith (Iaith Gymraeg, ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, braille, BSL)		

Monitro effeithiau'r cynnig

Sut y bydd gweithrediad y cynnig yn cael ei fonitro?

Nodwch

Llofnod y person a wnaeth yr Asesiad Llawn	Llofnod y person a'i awdurdododd :
Llofnod: Enw: Chelsey Hughes Dyddiad: 9 ^{fed} Mawrth 2015	Llofnod: Enw: Llinos Gutierrez-Jones Dyddiad: 9 ^{fed} Mawrth 2015

Cyhoeddi canlyniadau'r asesiad

Ar ôl ei gwblhau a'i lofnodi, sicrhewch bod yr holl wybodaeth gefnogol (ymgyngori, ymgysylltu, nodiadau, ayb.) yn cael eu hatodi. Yna gall yr asesiad gael ei lwytho i fyny i adran *Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Gwblhawyd* y fewnwyd a/neu ar y wefan.